


# Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol)

## Croeso i Gyngor Bro Morgannwg

**Ymunwch â ni yng Nghyngor Bro Morgannwg, lle mae ein gwerthoedd craidd, sef Agored, Ynghyd, Uchelgeisiol a Balch, yn llywio ein cenhadaeth i esblygu a gwella ein gwasanaethau ar gyfer y gymuned amrywiol rydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn gwahodd arweinwyr deinamig sydd ag angerdd am ragoriaeth mewn gwasanaethau ac ymrwymiad i newid cadarnhaol i ymuno â ni fel Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd.**

### Trosolwg o'r Rôl:

Ydych chi'n barod i ymgymryd â rôl arwain sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn? Fel Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Bro Morgannwg, cewch gyfle i lywio dyfodol ein prosesau democrataidd. Yn y swydd hanfodol hon, byddwch yn cyflawni dyletswyddau statudol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan yrru tryloywder, atebolrwydd a llywodraethu cadarn.

Byddwch ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau hanfodol sy'n ganolog i'n sefydliad. Bydd eich rôl yn canolbwyntio ar lywodraethu, y system pwyllgorau, a'r broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod ein Haelodau'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Yn ogystal, byddwch yn goruchwylio'r timau llywodraethu gwybodaeth a chofrestryddion, gan chwarae rhan allweddol wrth gynnal safonau uchel, arloesedd a chydymffurfiaeth.

### Cyfrifoldebau'r Rôl:

- Darparu arweinyddiaeth gref i dimau amrywiol, gan eu harwain tuag at ragoriaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol.
- Meithrin partneriaethau cydweithredol ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyswllt effeithiol â Chynghorwyr i gyflawni amcanion cyffredin.
- Cyfrannu at agenda trawsnewid y Cyngor drwy ysgogi arloesedd ac arferion gorau i wella gwasanaethau.
- Bodloni anghenion esblygol y gymuned gyda phwyslais arbennig ar wella cyfranogiad ac ymgysylltiad y cyhoedd.
- Gyrru mentrau sy'n hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a llywodraethu cadarn o fewn y Cyngor.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle cyffrous i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion, gan gyfrannu at lwyddiant a chynaliadwyedd cyffredinol Cyngor Bro Morgannwg. Os ydych chi'n arweinydd deinamig sydd ag angerdd am ragoriaeth mewn gwasanaethau ac ymrwymiad i sbarduno newid cadarnhaol, darllenwch ymlaen a byddem wrth ein bodd yn trafod pethau'n fanylach gyda chi.

**Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 10 Gorffennaf 2024**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG




# Ynglŷn â Chyngor Bro Morgannwg

**Croeso i Gyngor Bro Morgannwg, lle mae cydbwysedd bywyd gwaith boddhaus yn cwrdd â chymuned fywiog. Yma, fe welwch amgylchedd gwaith sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth, ein diwylliant a'n gwerthoedd, wedi'i osod yn erbyn cefndir o harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, ac ymdeimlad dwfn o berthyn.**

Yn swatio ar hyd arfordir trawiadol De Cymru, mae Bro Morgannwg yn cynnig cyfuniad unigryw o gefn gwlad hardd, canol trefi prysur, a chymunedau bywiog. Mae'r rhanbarth hon yn ymfalchïo mewn ansawdd bywyd heb ei ail ac ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol, gan ei gwneud yn un o'r ardaloedd mwyaf dymunol yn y DU.

Mae ein llwyddiant fel un o'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau yng Nghymru wedi'i ategu gan ein hymroddiad i arloesi a thrawsnewid. Rydym yn croesawu dyfeisgarwch a chydweithredu i fynd i'r afael ag anghenion a phryderon amrywiol ein cymunedau.

Fel Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd, byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth ymgorffori ein gwerthoedd a'n strategaeth i mewn i swyddogaethau craidd y Cyngor. Bydd eich arweinyddiaeth a'ch rheolaeth yn ganolog i'n llwyddiant. Byddwch yn:

- **Arwain gwasanaethau hanfodol:** Yn canolbwyntio ar lywodraethu, y system pwyllgorau, a'r broses o wneud penderfyniadau.
- **Meithrin partneriaethau cydweithredol:** Gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyswllt effeithiol â Chynghorwyr i gyflawni amcanion cyffredin.
- **Llywio rhagoriaeth mewn gwasanaethau:** Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd a llywodraethu cadarn.
- **Gwella ymgysylltiad cymunedol:** Cyfrannu at agenda trawsnewid y Cyngor drwy ysgogi arloesedd ac arferion gorau i fodloni anghenion esblygol y gymuned, gyda phwyslais arbennig ar wella cyfranogiad y cyhoedd.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, mae ein gwerthoedd o fod yn Agored, Ynghyd, Uchelgeisiol a Balch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn adeiladu amgylchedd gwaith sy'n meithrin ymddiriedaeth, cydweithrediad ac ymdeimlad o berthyn. Mae ein hymrwymiad i'r gwerthoedd hyn yn ymestyn i'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phawb rydym yn gweithio gyda nhw ac iddyn nhw, gan sicrhau ein bod yn meithrin perthnasoedd cryf yn seiliedig ar uniondeb, parch a chyflawniadau cyffredin.

Cewch gyfle i weithio mewn rhanbarth sy'n enwog am ei thirweddau trawiadol, ei thirnodau hanesyddol, a'i chyfleoedd hamdden amrywiol. Gyda milltiroedd o draethau perffaith, parciau blaenllaw, a sîn ddiwylliannol lewyrchus, mae Bro Morgannwg yn cynnig y cefndir perffaith ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwella lles a hapusrwydd ein preswylwyr.

Fel corff cyhoeddus, rydym yn cymryd effaith hirdymor ein penderfyniadau o ddifrif, gan ystyried yn barhaus sut y bydd ein gweithredoedd yn siapio'r dyfodol a sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein Hamcanion Lles yn cyd-fynd â'i gilydd, gan greu synergedd sy'n ein gyrru tuag at ddyfodol mwy disglair, mwy llewyrchus i bawb.

Ymunwch â ni yn ein hymrwymiad i greu cymuned lanach, wyrddach a bywiocach am genedlaethau i ddod. Fel y Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd, byddwch yn rhan annatod o'n taith drawsnewidiol, gan sicrhau bod ein gwerthoedd craidd yn llywio pob agwedd ar ein gwaith. Byddwch yn rhan o dîm sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau ein preswylwyr wrth fwynhau treftadaeth gyfoethog a harddwch naturiol Bro Morgannwg.



# Ein Gwerthoedd

## Rydym yn ceisio cofleidio'r gwerthoedd craidd o fod yn Agored, Yn-ghyd, Uchelgeisiol a Balch ym mhopeth a wnawn.

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, mae ein gwerthoedd yn fwy na dim ond geiriau – nhw yw'r egwyddorion arweiniol sy'n llywio pob penderfyniad a wnawn a phob cam a gymerwn. Wrth i ni gychwyn ar daith o drawsnewid a thyfu, mae'n hanfodol bod pob aelod o'n tîm yn deall ac yn ymgorffori'r gwerthoedd hyn, yn enwedig mewn rolau mor hanfodol â Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd.

### UCHELGEISIOL:

Rydym yn flaengar ac yn ceisio cofleidio ffyrdd newydd o weithio gyda'n cydweithwyr, partneriaid, trigolion a'r rhai sy'n gwneud busnes ym Mro Morgannwg. Rydyn ni'n buddsoddi yn ein dyfodol, o sgiliau ein gweithlu i'r asedau rydyn ni'n eu defnyddio a'n cydberthnasau ag eraill. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymddiriedaeth a roddir ynom gan ein cymuned ac rydym yn uchelgeisiol i gyflawni rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn ar eu rhan.

Fel Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd, byddwch ar flaen y gad o ran gyrru ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer newid a gwella. Trwy osod nodau beiddgar, herio'r drefn, a chofleidio arloesedd a chreadigrwydd, byddwch yn arwain y ffordd wrth drawsnewid ein timau Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethu Gwybodaeth a Chofrestryddion i fodloni anghenion esblygol ein Cynghorwyr a'n preswylwyr. Gydag uchelgais yn ein gyrru, nid oes terfyn ar yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd.

### AGORED:

Rydym yn meithrin amgylchedd o dryloywder a hygyrchedd. Rydym yn credu mewn cyfathrebu agored, gyda syniadau a gwybodaeth yn llifo'n rhydd. Rydym yn annog deialog, gwrando gweithredol ac adborth adeiladol. Trwy fod yn agored, rydym yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi safbwyntiau amrywiol ac yn hyrwyddo cydweithio, gan sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed.

Fel arweinydd y Gwasanaethau Democrataidd, byddwch yn gyfrifol am feithrin diwylliant o dryloywder, atebolrwydd a hygyrchedd yn eich Maes Gwasanaeth ac ar draws y sefydliad cyfan, yn enwedig wrth gefnogi 'busnes' ffurfiol y Cyngor a gynhelir gan Gynghorwyr. Trwy gofleidio natur agored yn eich dull gweithredu, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn agored, a cheisio adborth, byddwch yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymateb i anghenion y sefydliad a'r gymuned ehangach ac wedi'u hadeiladu ar sylfaen o ymddiriedaeth.

### YNGHYD:

Cydweithio yw conglfaen ein llwyddiant. Rydym yn credu drwy weithio gyda'n gilydd ein bod yn cyflawni mwy. Rydym yn meithrin diwylliant o waith tîm, lle mae unigolion ar draws adrannau a disgyblaethau yn dod at ei gilydd i fynd i'r afael â heriau, rhannu gwybodaeth, a defnyddio eu cryfderau ar y cyd.

Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn adran sydd wrth wraidd ein sefydliad, a thrwy gydweithio a phartneriaeth gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Yn eich rôl, byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y cyngor, gydag aelodau etholedig a staff, yn ogystal â phartneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau cymorth integredig.




# Ein Gwerthoedd (parhau)

**BALCH:**

Rydym yn ymfalchïo mewn gwasanaethu Bro Morgannwg a'i thrigolion. Rydym yn falch o'n cyflawniadau, yr effaith gadarnhaol a gawn, ac ymroddiad ein tîm. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau, bach a mawr, ac yn cydnabod ymdrechion ein staff i ddarparu gwasanaethau eithriadol. Mae ein balchder yn deillio o'n hymrwymiad i ragoriaeth, ein cyfraniad i'r gymuned, a'n hymroddiad diwyro i wneud gwahaniaeth.






# Ein Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, mae croesawu arloesedd a bod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd amgen o weithio yn hanfodol ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen o ansawdd uchel ledled Cymru. Yr her yw darparu neu alluogi'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein trigolion a'n hymwelwyr am y gost optimaidd, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ein nod yw creu amgylcheddau cynaliadwy, diogel, glân a chroesawgar y gall pawb eu mwynhau. Mae cyflawni'r weledigaeth hon yn gofyn am gydweithio agos â'n cymunedau lleol, gan feithrin cyfrifoldeb ar y cyd am lawer o ganlyniadau ein gwasanaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol yn y daith drawsnewidiol hon.

## Y TIMAU GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys tri maes gweithredol hanfodol; pob un yn hanfodol i lywodraethiant ac ymddygiad da y Cyngor. Mae'r timau hyn yn sicrhau bod cynghorwyr yn cael eu cefnogi i gynnal busnes ffurfiol y Cyngor. Maent yn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i wella swyddogaethau Craffu a Phwyllgorau'r Cyngor, gan sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw ac yn hygyrch. Yn ogystal, maent yn darparu Strategaeth a Rhaglen Datblygu Aelodau'r Cyngor, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer y swyddogaeth Graffu a meysydd llywodraethu eraill.

### 1. Gwasanaethau Democrataidd

- **Gwneud Penderfyniadau Effeithiol:** Meithrin prosesau effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli trefniadau craffu a phwyllgorau.
- **Cymorth a Chanllawiau:** Darparu trosolwg annibynnol o'r gwasanaeth apeliadau ysgolion ac arweiniad i Aelodau etholedig ar Gyfansoddiad y Cyngor, y Cod Ymddygiad Aelodau, a Datblygiad Aelodau.
- **Swyddogaethau'r Cyngor:** Cefnogi'r Cabinet a'r Maer i sicrhau gweithrediadau esmwyth.

### 2. Gwasanaethau Cofrestru

- **Atebion Arloesol:** Darparu gwasanaethau cofrestru eithriadol, cydymdeimladol, gan gynnwys system archebu ddigidol ar gyfer priodasau a seremonïau partneriaeth sifil, trawsnewid gweithrediadau'r gwasanaeth a chynhyrchu mwy o incwm.
- **Gwasanaeth Cynhwysfawr:** Cynnig y gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith', cyflenwi y tu allan i oriau ar gyfer y gwasanaethau Cofrestryddion, a darparu gwasanaethau dathlu fel adnewyddu addunedau a seremonïau enwi.
- **Rhagoriaeth Seremonïol:** Mae'r Cofrestrydd Arolygol a'r tîm yn gweinyddu seremonïau mewn lleoliadau hardd ym Mro Morgannwg ac mewn safleoedd cymeradwy.

### 3. Rheoli Gwybodaeth

- **Diogelwch Data:** Diogelu gwybodaeth y Cyngor drwy gynnig cyngor arbenigol ar Ddiogelu Data, ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, a Llywodraethu Gwybodaeth.
- **Arferion Gorau a Hyfforddiant:** Mae'r swyddog Diogelu Data yn cynorthwyo'r Swyddog Priodol gyda'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio drwy hyrwyddo arferion gorau a darparu hyfforddiant angenrheidiol.




# Ein Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol (parhau)

Mae pob un o'r meysydd hyn yn cael eu harwain gan Reolwr Tîm ymroddedig sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r rheolwyr hyn yn sicrhau gweithrediad esmwyth ac effeithlon eu priod feysydd, gan gyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol ac uniondeb y Cyngor.

Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych os oes gennych ddiddordeb mewn trafod y cyfle cyffrous hwn yn fanylach. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais a'ch croesawu i'n tîm.

*Victoria Davidson*
*Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd*

*E-bost: VDavidson@valeofglamorgan.gov.uk   Ffôn: 07891 449715*



# Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol)

## Proffil Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol) |
| **Cyfeirnod y Swydd** | X-DS-AA001 |
| **Gradd** | Rheolwr Gweithredol |
| **Cyfarwyddiaeth** | Adnoddau |
| **Lleoliad** | Swyddfeydd Dinesig a Gweithio o Bell |
| **Yn atebol i** | Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| **Yn gyfrifol am** | Cymorth Cyngor/Cabinet, Cymorth Pwyllgorau, Gwasanaethau Aelodau, Gwasanaethau Craffu, Tîm Llywodraethu Gwybodaeth a Gwasanaeth Cofrestru'r Cyngor. |

**Trosolwg o'r Rôl**

Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym wedi ymrwymo i feithrin diwylliant sy'n ymgorffori'r gwerthoedd Agored, Ynghyd, Uchelgeisiol, a Balch. Ein cenhadaeth yw gwella swyddogaethau democrataidd y Cyngor, gan sicrhau tryloywder, atebolrwydd a llywodraethu cadarn. Rydym yn chwilio am arweinydd profiadol a deinamig ar gyfer rôl Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd, a fydd hefyd yn cyflawni dyletswyddau statudol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn frwd dros ddemocratiaeth leol, gyda chefndir cryf mewn prosesau democrataidd ac ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus.

| Ein Gwerthoedd | Ymddygiad | Beth mae'n ei olygu i ni |
|---|---|---|
| **UCHELGEISIOL** | Meddwl at y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol | • Dangos y gallu i feddwl at y dyfodol a dulliau arloesol o wella gwasanaethau democrataidd.<br>• Gosod safonau uchel ar gyfer darparu gwasanaethau, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth o fewn y tîm.<br>• Ceisio cyfleoedd ar gyfer twf a datblygiad o fewn y fframwaith democrataidd i gyd-fynd â nodau strategol. |
| **AGORED** | Agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud | • Meithrin cyfathrebiadau clir a thryloyw o fewn y Cyngor, gydag Aelodau Etholedig, cydweithwyr a rhanddeiliaid allanol.<br>• Gwrando ar safbwyntiau amrywiol a'u gwerthfawrogi, gan hyrwyddo amgylchedd lle caiff syniadau eu cyfnewid yn rhydd. |
| **GYDA'N GILYDD** | Gweithio fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n parchu amrywiaeth ac sydd wedi ymrwymo i wasanaethau o safon. | • Hyrwyddo gwaith tîm a chydweithio o fewn y timau Gwasanaethau Democrataidd.<br>• Meithrin perthnasau cryf gydag aelodau etholedig, rhanddeiliaid a phartneriaid i wella gwaith y Gwasanaeth.<br>• Annog dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y tîm o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau. |



# Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol)

## Proffil Rôl (parhau)

| | Ymddygiad | Beth mae'n ei olygu i ni |
|---|---|---|
| **BALCH** | Balch i wasanaethu ein cymunedau ac i fod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg. | • Hyrwyddo rhagoriaeth o ran gwaith y timau Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyson â gwerthoedd ac uchelgeisiau'r Cyngor.<br>• Darparu gwasanaethau cymorth o ansawdd rhagorol sy'n galluogi aelodau, rhanddeiliaid a phartneriaid i gymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol sy'n gwella'r effaith ar fywydau trigolion.<br>• Darparu gwasanaethau sy'n gydymdeimladol ac yn arloesol i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio ein gwasanaethau statudol a dewisol. |





# Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol)

## Proffil Rôl (parhau)

**DISGRIFIAD SWYDD:**

Fel Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd, byddwch yn:

**Rhwymedigaethau Statudol:**

Cyflawni rôl statudol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (PGD), fel y'i dynodwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r dyletswyddau canlynol:

- Gwneud argymhellion ynghylch digonolrwydd o ran darparu staff, llety, ac adnoddau eraill wrth arfer swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Darparu Rhaglen Sefydlu a Datblygu Aelodau effeithiol, gan sicrhau bod aelodau etholedig wedi'u paratoi'n llawn i gyflawni eu rolau.
- Rhoi adroddiadau a chyngor cywir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod yr Aelodau'n cael eu hysbysu a'u hymgysylltu i gyflawni eu swyddogaeth.
- Rhoi cyngor cyflawn a manwl ar y Gwasanaeth i’r Aelodau priodol a bod yn atebol i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r Aelod Cabinet yn unol â gweithdrefnau sefydledig i sicrhau bod yr Aelodau’n gwybod am benderfyniadau ac yn cyfrannu atynt fel y bo’n briodol.
- Adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar raglen waith y Pwyllgor, a sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynnal.
- Cydnabod bod y rôl yn un sydd â chyfyngiadau gwleidyddol dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1989 a gweithredu ar y sail honno.

**Rhagoriaeth Weithredol:**

- Rhoi cyngor a chymorth o ansawdd uchel ar draws ystod o feysydd, gan sicrhau swyddogaethau democrataidd effeithiol o fewn y Cyngor i hwyluso penderfyniadau cadarn, tryloywder, natur agored ac atebolrwydd.
- Rhoi arweiniad a chymorth i swyddogaeth Graffu'r Cyngor, gan weithio gydag aelodau etholedig, Prif Swyddogion a rhanddeiliaid i wella atebolrwydd ac ymgysylltiad cyhoeddus.
- Arloesi a datblygu gweithgareddau sy'n cefnogi rhaglen drawsnewid a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, gan gynnwys datblygu ymhellach gynnig y Cyngor i gwsmeriaid sy'n ceisio dathliadau, priodasau a gwasanaethau cydnabyddiaeth.
- Rhoi arweiniad i Dîm Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor a'r trefniadau sy'n gysylltiedig â Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
- Gweithredu a chynnal yr holl Gofrestrau, Datgeliadau a Datganiadau fel sy'n ofynnol dan Gyfansoddiad y Cyngor.
- Mynd (yn bersonol) i gyfarfodydd y Cyngor Llawn, Pwyllgorau Craffu, y Cabinet, a chyfarfodydd eraill y Cyngor, a chyfrannu atynt yn ôl yr angen.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau statudol ac anstatudol ar gyfer darparu Gwasanaethau Democrataidd yn effeithiol.
- Cynnal a rhoi cyngor i Gynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig Statudol mewn perthynas â'r Cofrestrau Buddiannau, Rhoddion a Lletygarwch.
- Gweithredu fel y Swyddog Priodol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cofrestru.
- Cydgysylltu â'r Swyddog Monitro a'i gefnogi, fel y bo'n briodol, wrth gyflawni ei ddyletswyddau.





**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:**

- Cydweithio â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, i nodi themâu/cynigion sy'n dod i'r amlwg a newid sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, gan gynnwys tueddiadau cenedlaethol a lleol, newidiadau polisi a deddfwriaeth, ac arferion perthnasol i sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol.
- Cefnogi'r holl aelodau etholedig yn eu rolau ward, gan roi cyngor ac arweiniad yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt allweddol ar gyfer asiantaethau allanol, sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol eraill, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, y Rhwydwaith Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd, a'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Comisiwn Ffiniau Cymru).

**Arwain a Rheoli:**

- Rhoi cyfeiriad ac arweiniad i'r Timau Gwasanaethau Democrataidd, gan ysbrydoli diwylliant o ragoriaeth, cydweithredu ac arloesedd.
- Rheoli gweithrediadau o ddydd i ddydd yr adran Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon a chydymffurfio â gofynion statudol a chyfansoddiadol.
- Gweithio gyda chydweithwyr i sefydlu ac ymwreiddio diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r ymddygiadau a'r perfformiad cywir i sicrhau bod canlyniadau sy'n bodloni Cynllun Corfforaethol ac amcanion strategol y Cyngor yn cael eu cyflawni.
- Drwy eich ymddygiad eich hun, dangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol gan hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ymwreiddio gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor ar draws pob lefel yn y sefydliad i adeiladu diwylliant y sefydliad.
- Dangos meddwl arloesol, herio'r sefyllfa bresennol, a chroesawu syniadau a dulliau newydd o ddatrys problemau, gan feithrin diwylliant o greadigrwydd ac arloesedd o fewn y tîm.

**Dyletswyddau Cyffredinol:**

- Gweithio gyda Thîm Arwain y Gyfarwyddiaeth i roi arweiniad cryf ar gyfer Adnoddau Corfforaethol, gan wneud cysylltiadau rhwng gwaith y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r timau eraill yn y Gyfarwyddiaeth i sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf.
- Ystyried cyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth.
- Hwyluso'r broses o gyflwyno polisïau, gweithdrefnau ac arfer i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Cyngor a chymryd rhan yn y broses honno.
- Sicrhau y caiff egwyddorion cyfle cyfartal eu hintegreiddio a'u dilyn yn weithredol yn y Gyfarwyddiaeth ac ym mhob rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Sicrhau cydymffurfiaeth barhaol â pholisïau'r Cyngor, gweithdrefnau a deddfwriaeth gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â rheoli cyflogeion, iechyd a diogelwch, cysylltiadau cwsmeriaid, diogelu, gwybodaeth, cydraddoldeb, yr amgylchedd a'r rhai sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.

Yn ychwanegol i'r dyletswyddau uchod, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a allai ddeillio o newid mewn amgylchiadau, ond nad ydynt o reidrwydd yn newid natur neu lefel cyfrifoldeb y swydd.



# Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol)

## Manyleb Person

| | HANFODOL | DYMUNOL | PROFIR TRWY |
|---|---|---|---|
| 1. Profiad | • Profiad o arwain a rheoli timau amrywiol yn effeithiol.<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd gwleidyddol neu gyda swyddogion etholedig.<br>• Profiad o reoli trefniadau Craffu a Phwyllgorau a chyflwyno hyfforddiant i aelodau etholedig.<br>• Profiad o'r broses wleidyddol a'r broses o wneud penderfyniadau o fewn llywodraeth leol. | | • CV a Llythyr Eglurhaol.<br>• Gweithgareddau Dethol. |
| 2. Gwybodaeth | • Gwybodaeth dda am y fframwaith rheoleiddio a deddfwriaeth berthnasol.<br>• Dealltwriaeth dda o'r fframwaith llywodraeth leol a'r gwaith o'i lywodraethu. | | • CV a Llythyr Eglurhaol.<br>• Gweithgareddau Dethol. |
| 3. Sgiliau a rhinweddau | • Y gallu i ddangos esiampl o ran y cymwyseddau arwain ymddygiadol a hyrwyddo gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol y Cyngor.<br>• Y gallu i feddwl yn strategol a datblygu a gweithredu strategaethau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion sefydliadol.<br>• Sgiliau arwain rhagorol a'r gallu i roi eglurder i'ch tîm ar weledigaeth a phwrpas ei waith.<br>• Hanes cryf o adeiladu a meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol, a'r gallu i eirioli dros ragoriaeth, tegwch, a chynwysoldeb.<br>• Sgiliau cyfathrebu hynod effeithiol, y gallu i ddylanwadu ar eraill gydag effaith a hygrededd proffesiynol a'r gallu i gyfathrebu â chymuned amrywiol. | | • CV a Llythyr Eglurhaol.<br>• Gweithgareddau Dethol. |



## Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Democrataidd (a Phennaeth Democrataidd Statudol)

### Manyleb Person (parhau)

| | HANFODOL | DYMUNOL | PROFIR TRWY |
|---|---|---|---|
| 3. Sgiliau a rhinweddau (parhau) | • Ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol ac yn ymwybodol o dueddiadau addysg a rheoliadau perthnasol sy'n dod i'r amlwg.<br>• Y gallu i reoli adnoddau'n effeithiol, gan gynnwys cyllidebau, staffio a chyfleusterau. | | |
| 4. Cymwysterau a hyfforddiant | • Gradd berthnasol neu brofiad cyfatebol ar lefel reoli. | • Cymhwyster arwain/ rheoli. | • CV a Llythyr Eglurhaol. |
| 5. Agwedd a chymhelliant | • Uniondeb personol a phroffesiynol.<br>• Uwch arweinydd brwdfrydig iawn, sy'n gallu dangos esiampl i aelodau o'r tîm ac i gyfoedion.<br>• Gallu addasu a bod yn hyblyg i ateb amryw heriau.<br>• Arweinydd ysbrydoledig sy'n gallu ennyn diddordeb aelodau o'r tîm i berfformio'n eithriadol mewn amgylchedd heriol.<br>• Hyrwyddwr newid arloesol, sy'n hapus i herio'r sefyllfa bresennol i gyflawni amcanion strategol a datrys problemau.<br>• Brwdfrydig wrth ddangos esiampl mewn perthynas â gwerthoedd y Cyngor. | | • CV a Llythyr Eglurhaol.<br>• Gweithgareddau Dethol. |
| 6. Arall | • Hygrededd personol a phroffesiynol.<br>• Cymhelliant, egni a brwdfrydedd i gynnal agenda eang.<br>• Y gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol a mynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn ôl yr angen.<br>• Y gallu i yrru/teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel sydd angen. | • Y gallu i siarad neu ddysgu Cymraeg. | • CV a Llythyr Eglurhaol.<br>• Gweithgareddau Dethol. |

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfa Dinesig
Heol Holton
Y Barri CF63 4RU
www.bromorgannwg.gov.uk